

YSTAFELL NEWYDDION Y BOBL

**MENYWOD MUDOL A
CHYFLOGAETH**

YSGRIFENNWYD GAN RHA HIRA ARAYAL



Y Cylch: Anawsterau a wynebir gan Ymfudwyr Asiaidd Benywaidd ym Myd Gwaith

Dwi a fy mam yn paratoi swper. Mae'n nos Fawrth arferol, ac rydyn ni'n gwneud ein gorchwylion dyddiol; dwi'n ffwdanu wrth wagio'r peiriant golchi llestri, gyda chlwtyn tamp yn fy llaw, tra bo hanner corff Mam wedi diflannu i'r oergell wrth iddi estyn am gynhwysion.

Dwi'n glanhau'r arwyneb gweithio ac yn taro cip meddylgar ar Mam, ei gŵn wisgo hoff yn ffrwydrad llachar o binc yn erbyn llwyd lliw llechen y ffrij. Rhaid ei bod hi wedi blino at ei mêt, meddyliaf; deffrodd o'n blaenau ni i baratoi pecyn cinio i fy chwaer, goddefodd y bws gorlawn i'r gwaith, cerddodd adref, rhoddodd ffreshiad i'r tŷ gyda rhyw gymysgedd finegr, a nawr mae hi'n paratoi swper i bedwar.

Daw gwên yn llechwraidd dros fy ngwefusau wrth i mi feddwl, siwperfenyw. Gwên drist yw hi, gwên hiraethus, gwên boenus. Gwên sy'n gobeithio nad fi yw'r nesaf yn ei thro. Gwên sy'n dymuno cipio fy mam oddi yma, yn ei gŵn wisgo hyd yn oed, a rhoi egwyl haeddiannol o wyliau iddi hi.

Dwi'n dweud hyn oll wrthi, ac mewn ymateb, mae hi'n dweud wrthyf am y cylch. Mae'r gair yn fy atgoffa o beiriant golchi dillad. Mae ganddo arogl fel sebon golchi dillad, lafant digon cryf i ruddo'r ffroenau, ac mae'n codi cryd digymell.

Mae hi'n dweud wrthyf am y rhwystrau sy'n atal menywod fel hi, ymfudwyr Asiaidd, rhag dod yn ariannol annibynnol. Mae'n dweud sut roedd hi'n teimlo'n 'ddi-rym, yn drist ac wedi fy eithrio', gan wybod nad oedd hi'n gallu'i chynnal ei hun yn ariannol pan symudodd hi i'r DU gyda fy nhad. Symudodd hi o Nepal i greu gwell bywyd i'w darpar deulu. Esbonia mai'i hanhawster mwyaf oedd nad oedd hi'n ddigon rhugl ei Saesneg: "Allwn i ddim â chael swydd dda oherwydd fy Saesneg. Dyma fy ail iaith." Dywed mai'r anallu i gyfathrebu oedd y rhwystr mwyaf arwyddocaol, ac yn dynn ar ei sodlau, "gorfod addasu i ddiwylliant ac amgylchedd gwahanol". Wedyn dwi'i gofyn iddi: "Ond mae llawer o bobl yn dadlau fod digon o wasanaethau cyflogi ar gyfer ymfudwyr Asiaidd benywaidd – beth yw dy farn di am hyn?" Ei hymateb oedd "Dyw hynny ddim yn wir. Ches i ddim cefnogaeth o gwbl pan oeddwn i'n ceisio am swyddi ugain mlynedd yn ôl."

"mae'n hawdd gweld pam y gallai ymfudwyr benywaidd o Asia fod yn gyndyn i ddilyn cyfleoedd proffesiynol"

Mae stori gefndirol fy mam yn debyg i un cynifer o fewnfudwyr benywaidd yn y DU. Yn 24 oed, dyweddiodd â fy nhad, oedd eisoes y byw ac yn gweithio yng Nghymru. Mae fy nhad yn gweithio fel peiriannydd sifil, a theimlai Mam bob amser y byddai pobl yn ei barnu hi am weithio mewn swydd mor ddistadl, fel glanhawraig, o'i gymharu â swydd goler-wen draddodiadol fy nhad. Teimlai y byddai'r bwlch cymdeithasol hwn yn denu gwag gan ein teulu yn Nepal, ond dyma'r unig fath o swydd oedd ar gael iddi hi heb sgiliau Saesneg rhugl.

Gallai cael cefnogaeth gan sefydliad fod wedi newid rhagolygon gyrfaol fy mam yn sylweddol. Mae EYST (Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuentid Cymru) yn cefnogi unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n byw yng Nghymru. Esboniodd Selima Bahadur, Rheolwr y Rhaglen, fod safbwyntiau negyddol am fenywod Asiaidd ymfudol yn cael

eu gor-symleiddio. “Mae’r anawsterau a wynebhir ganddyn nhw’n deillio o’r problemau croestoriadol sy’n ymwneud â bod yn berson o liw, yn fenyw [neu] yn Fwslim. Gall pob un o’r rhain gael goblygiadau negyddol mewn bywyd beunyddiol ac wrth geisio swydd.”

Dywedodd fod rhywfaint o welliant wedi digwydd o’i gymharu ag ugain mlynedd yn ôl am fod “[rhaid Asiaid] benywaidd ddim wedi cael cyfle i gael swydd. Nawr mae hyn wedi newid, ac rydyn ni hefyd wedi gweld mwy o gyfleoedd o fewn rhai meysydd cyflogaeth a symudiad drwedd i safleoedd uwch.” Ond mae hi’n ymwybodol o “gyflogwyr [...] sy’n cyflogi pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, bron fel ystum symbolaidd ac wedyn maen nhw’n disgwyl iddyn nhw fod yn wyneb cyhoeddus y cwmni. Does dim cyfle go iawn i’r unigolion hyn symud drwy’u gyrfa i safle uwch os dymunant wneud hynny.” Dywedodd ei bod hi’n dyst i lawer o fewnfudwyr sy’n meddu ar hanes gyrfa dramor yn ei chael hi’n anodd dod o hyd i “waith yn eu maes o ddewis, oherwydd nad oes ganddyn nhw mo’r cymwysterau yn y wlad hon. Felly maen nhw’n ceisio am swyddi gwag di-sgil. Ac mae hyn yn golygu fod pethau ddim yn gwella dim mewn gwirionedd – os rhywbeth, maen nhw’n gwaethygu i fewnfudwyr Asiaidd.”

Mae adlais o’r broblem hon i’w chlywed yn stori fy mam. Cyn iddi symud, roedd hi’n athrawes ysgol gynradd yn Nepal, mae ganddi radd BA mewn Gwyddorau Cymdeithasol, ond doedd hi ddim yn gallu trosglwyddo’r sgiliau hyn, am nad oedd fawr o ystyr, os o gwbl, i’w chymwysterau yn y DU.

Fel elusen, mae EYST wedi sefydlu’r Rhwydwaith Cyflogadwyedd Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd ethnig i gynyddu cyflogaeth a chyflogadwyedd ymysg cefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae’r grŵp yn cwrdd yn wythnosol a bu’n effeithiol wrth ‘gynyddu ymwybyddiaeth o’r bwloch cyflogaeth ymysg grwpiau gwahanol a wahaniaethwyd o ran hil.” Ond dylid ymestyn y rhwydwaith i bob rhan o Gymru. Mae Selima hefyd o’r farn y gallai Cymru fod yn fwy croesawgar a chynhwysol i ymfudwyr benywaidd o Asia drwy ‘gael mwy o fodelau rôl mewn meysydd gwahanol a gwerthfawrogi’r cyfraniad a wnânt i gymdeithas.”

“Daw gwên yn llechwraidd dros fy ngwefusau wrth i mi feddwl, siwperfenyw”

Mae sawl elusen arall, fel Women for Refugee Women, sy’n gweithredu ledled y DU, wedi amlygu anawsterau tebyg a wynebhir gan fenywod sy’n ffoaduriaid. Mewn ymateb, maen nhw wedi trefnu enciliadau yng nghefn gwlad i wella’u sgiliau arwain. Gall hyn helpu menywod sydd dan anfantais ddatblygu’u hyder ac arwain at drawsnewidiadau personol, fel y dywed Rebecca (ffugenw) wrth ysgrifennu mewn blog ar wefan yr elusen o 2018. “Cyn ymuno â Women for Refugee Women, ro’n i’n swil iawn, ac wedi colli pob gobaith o fyw bywyd normal... Fe newidiodd hyn yn llwr i fi pan gwrddais â Women for Refugee Women oherwydd dwi wedi cael cyfleoedd a hyfforddiant”. Esbonia am y gweithgareddau amrywiol y buon nhw’n eu gwneud, gan gynnwys sesiynau drama, cwrs gwnio a pherfformio barddoniaeth. “Peidiwch â chuddio, mae cyfleoedd ar gael ac mae cymaint o botensial gennych.” Mae hi bellach yn cefnogi ymfudwyr benywaidd eraill ar eu taith tuag at lwyddo.

Yn gyffredinol, mae’n hawdd gweld pam y gallai ymfudwyr benywaidd o Asia fod yn gyndyn i ddilyn cyfleoedd proffesiynol, boed hynny oherwydd rhwystrau ieithyddol neu ddiffyg hunan-barch. Ond mae hefyd yn galonogol gweld menywod yn ennill annibyniaeth, gwybodaeth a phrofiad, gan alluogi i leisiau gwerthfawr gael eu cynnwys yn ein diwydiant gwaith.

Fy ngobaith yw y bydd y dyfodol yn cynnig mwy o gefnogaeth, cyngor a gwasanaethau a anelir at ymfudwyr benywaidd Asiaidd, i’w galluogi i ddatgloi’u llwyr botensial ac ennill annibyniaeth ariannol.

Weithiau, mae angen i ni stopio bod yn gwrtais, troi ein trwyn i fyny a chraffu ar y byd, a dweud wrtho nad yw'n ein trin ni'n ddigonol. Weithiau mae angen i ni daflu ein sebon golchi dillad gor-ddrud drwy'i arllwys i lawr y sinc, rhoi hwp i ddrws y gegin, a gwisgo ein hesgidiau. Dewch i ni dorri'r cylch.

GALWAD

UNBOXED

CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD can Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.